OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2020 No. 1522

## Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 4) (Cymru) (Diwygio) 2020

**Diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 4) (Cymru) 2020**

**2.**—(1) Mae Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 4) (Cymru) 2020(**1**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 7(2)(c)—

(a) ym mharagraff (i), ar ôl "ffilm" mewnosoder "mewn sinema o sedd cerbyd";

(b) ar ôl y paragraff hwnnw mewnosoder—

"(ia) perfformiad mewn theatr o sedd cerbyd;".

(3) Yn rheoliad 19, hepgorer paragraff (1A).

(4) Yn rheoliad 47, ar ôl paragraff (4) mewnosoder—

"(4A) At ddibenion y Rheoliadau hyn, mae mangre sinema neu theatr yn sinema neu'n theatr o sedd cerbyd—

(a) os yw'r fangre yn yr awyr agored, a

(b) o ran personau sy'n mynd i arddangosiad ffilm neu berfformiad yn y fangre—

(i) ni chaniateir iddynt ond gwneud hynny mewn cerbyd caeedig, a

(ii) ni chaniateir iddynt, i'r graddau y mae'n rhesymol ymarferol, adael y cerbyd tra byddant yn y fangre."

(5) Yn Atodlen 1—

(a) ym mharagraff 3, ar ôl "Theatrau" mewnosoder "ac eithrio theatrau o sedd cerbyd";

(b) ym mharagraff 6, ar ôl "arcedau diddanu" mewnosoder ", parciau a chanolfannau trampolîn, parciau a chanolfannau sglefrio o dan do";

(c) ym mharagraff 8, ar ôl "Sinemâu" mewnosoder "ac eithrio sinemâu o sedd cerbyd".

(**1**) O.S. 2020/1219 (Cy. 276) fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2020/1237 (Cy. 279), O.S. 2020/1288 (Cy. 286), O.S. 2020/1409 (Cy. 311) ac O.S. 2020/1477 (Cy. 316).